

## Prifysgol Caerdydd

### Cynllun Gweithredu Adolygiad Gwella Ansawdd.

Mae'r Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) yn cael ei gynnal bob chwe blynedd, a thrwy'r dull hwn y caiff darparwyr addysg uwch yng Nghymru eu hadolygu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) o dan Fframwaith Asesu Ansawdd (QAF) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).

Ymwelodd y tîm adolygu â'r Brifysgol ym misoedd Chwefror a Mawrth 2020 i gwrdd ag aelodau staff, myfyrwyr, llywodraethwyr a darparwyr lleoliadau.

Cadarnhaodd yr adolygiad y canlynol:

- Mae Prifysgol Caerdydd **yn bodloni** gofynion Rhan 1 Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol;
- Mae Prifysgol Caerdydd **yn bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru;

sy'n golygu bod gan y Brifysgol drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau safonau academaidd, rheoli ansawdd academaidd a gwella ansawdd profiadau myfyrwyr.

Ni chyflwynodd y tîm adolygu unrhyw argymhellion.

Mae'r cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu ar y cyd rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Rhan annatod o'r broses QER yw datblygu cynllun gweithredu ar ôl yr ymweliad adolygu.

Y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (ASQC) fydd yn monitro sut y rhoddir y cynllun gweithredu ar waith a bydd cynnydd yn erbyn gweithredoedd yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol a gyflwynir i'r Senedd a'r Cyngor.

Rhoddwyd diweddariadau terfynol ar raglen CUROP i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2022. Mae'r camau a gymerwyd cyn 2022/23 i wella CUROP yn cwblhau cynllun gweithredu'r Adolygiad Gwella Ansawdd. O ganlyniad, cadarnhaodd y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd y gellid gorffen y cynllun gweithredu [Cofnod 1424.4].

**Canmoliaeth:**

Canmoliaeth	Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Canlyniad	Dyddiad
Cyfleoedd a ddarperir gan Raglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedig Caerdydd (CUROP) i fyfyrwyr ymgysylltu â gweithgareddau ymchwil er mwyn gwella eu dysgu a'u cyfleoedd gyrfaol yn y dyfodol.	Adolygu CUROP i wneud yn siŵr bod myfyrwyr israddedig yn parhau i gael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil i gefnogi eu dysgu a'u rhagolygon gyrfa yn y dyfodol.	Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr)	<p>Byddai CUROP yn rhedeg yn 2022/23, a gwelwyd newid i'r trefniadau ar gyfer ei hariannu. Roedd y cyllid ar gyfer y rhaglen yn rhan o gyllideb yr Academi Dysgu ac Addysgu, a fyddai'n sicrhau'r cyllid ar gyfer y rhaglen hyd y gellir rhagweld.</p> <p>Roedd CUROP yn cael ei gwella o 2022/23 ymlaen drwy ofyn i oruchwylwyr gysylltu eu lleoliadau/projectau â themâu ymchwil penodol, a fyddai'n sicrhau eu bod yn cydfynd ag agenda ymchwil y Brifysgol.</p>	Rhagfyr 2022

**Cadarnhad:**

Cadarnhad	Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Canlyniad	Dyddiad
Y camau sy'n cael eu cymryd i weithredu proses fonitro flynyddol ddiwygiedig sy'n galluogi dull mwy ymatebol o ran addasu a gwella profiad myfyrwyr.	Gweithrediad yr Adolygiad a Gwelliant Blynyddol (ARE) yn 2019/20 i'w adolygu gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (ASQC) erbyn Mehefin 2020.  Bydd gweithrediad ARE yn 2020/21 i'w adolygu gan ASQC erbyn Mehefin 2021.	Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr)	Mae ARE yn cynnig proses fonitro flynyddol effeithiol, effeithlon ac ymatebol er mwyn: datblygu cynlluniau gweithredu i wella dysgu ac addysgu a phrofiad y myfyriwr; a rhannu a chydabod arfer da.	Gorffennaf 2021